# Cofnodion Wedi eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd (Busnes)**<br><br>**Canolfan Morlan, Aberystwyth** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 7 Gorffennaf 2016 |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd)<br>Emyr Roberts (Prif Weithredwr)<br>Ruth Hall<br>Andy Middleton<br>Paul Williams<br>Chris Blake<br>Howard Davies<br>Zoe Henderson |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Clive Thomas, Cyfarwyddwr, Llywodraethu<br>Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl<br>Catherine Smith, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Mynychwyr Ychwanegol:** | Mike Evans, Pennaeth Tystiolaeth, Gwybodaeth a Chyngor – Eitem 7 ar yr agenda<br>Andrew Johnson, Pennaeth Cynllunio Pobl a Newid Busnes – Eitem 4 ar yr agenda<br>Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu – Eitem 5 ar yr agenda<br>Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol – Eitem 6 ar yr agenda<br>Bob Vaughan, Rheolaeth Gynaliadwy o Ffermio, Tir a Choedwigoedd – Eitem 8 ar yr agenda<br>Phil Morgan, Uwch Swyddog yr Amgylchedd – Eitem 8 ar yr agenda |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Leah Edge |

## Busnes Safonol y Bwrdd

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i'r cyfarfod, yn ogystal â chydnabod sawl aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol

2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Karen Balmer ac Elizabeth Haywood (Aelodau'r Bwrdd) a chan Ceri Davies, Niall Reynolds a Gareth O'Shea (Tîm Gweithredol)

3. Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb newydd.

## Cofnodion a Materion sy'n codi, Pwyllgorau, Cofnodion a Materion sy'n codi

4. Adolygwyd cofnodion cyfarfod mis Mai'r Bwrdd ac fe'u cadarnhawyd gydag ambell fân newidiadau:

- Paragraff 15 – roedd y perfformiad taliadau ar gyfer mis Mawrth, nid y flwyddyn gyfan, a byddai'r taliad cronfa pensiwn ychwanegol yn cael ei gofnodi yng nghyfrifon 2015/16, nid yn 2016/17 fel y nodwyd
- Paragraffau 58 a 59 – y paragraffau hyn i gael eu cyfnewid
- Cwestiwn 6, tudalen 13 – Kate Gibbs nid Kate Gribbs fel y nodwyd

5. Adolygwyd y Log Gweithredu a chafwyd eglurder ynghylch y pwyntiau canlynol:

- Ymdriniwyd ag Eitem 4 wrth i ddiweddariad ar bapur gael ei gylchredeg yn y cyfarfod
- Cadarnhawyd mai ystyr Eitem 7 oedd y dylai Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) drafod adolygiad Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur (JNCC). Cadarnhawyd yr ymdriniwyd ag ef.

6. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Trosiannol (REMCOM) wedi darparu cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor i'r Bwrdd, cyn cyfarfod y Bwrdd. Fe'u cadarnhawyd yn ffurfiol gan y Bwrdd.

7. Cyflwynodd Cadeirydd REMCOM gynigion ar gyfer Telerau Cyfrifoldeb wedi eu diweddaru ar gyfer y Pwyllgor, gydag argymhelliad i newid enw'r Pwyllgor. Cytunwyd fod y Telerau Cyfrifoldeb wedi eu diweddaru yn gweddu'n well ar gyfer priod waith y pwyllgor a bod newid ei enw i'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yn addas wrth gydnabod y pwyslais cynyddol ar faterion pobl strategol, tra bo'n parhau i gydnabod rôl bwysig y pwyllgor o ran llywodraethu.

8. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd (ARAC) Adroddiad Blynyddol 2015-16 y pwyllgor i'r Bwrdd, gan dynnu sylw penodol at neges gyffredinol yr adroddiad ynghylch lefel sicrwydd uchel. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad a chynnig nifer o fân newidiadau i'w gwneud cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau.

***CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Llywodraethu i gwblhau Adroddiad Blynyddol ARAC yn unol â thrafodaeth y Bwrdd a'i gylchredeg i'r Bwrdd maes o law***

9. Tynnwyd sylw at Flaenraglen y Pwyllgor, gan gynnwys y bwriad i ARAC gadw trosolwg o newidiadau trawsnewidiol wrth fynd ar drywydd argymhellion BAR a pharhau â'r berthynas agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru wrth symud ymlaen gyda gweithredu gofynion adrodd integredig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

10. Cyflwynwyd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i ymholiadau Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y sawl 'sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas â risg twyll'. Nodwyd bod Cadeirydd ARAC yn awyddus i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'r ymateb, er bod Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon mai cyfrifoldeb ARAC ydyw.

11. Cafodd cofnodion cyfarfod ARAC ar 10 Mehefin eu cadarnhau'n ffurfiol gan y Bwrdd ac fe amlinellodd cadeirydd y pwyllgor y cynnig i sicrhau bod y Bwrdd llawn yn ymwybodol o ddatblygiad yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Bydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 (y flwyddyn ariannol ddiwethaf), a oruchwylir gan ARAC, yn cael eu cyflwyno gerbron y Bwrdd llawn ym mis Medi.

***CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 terfynol ar agenda cyfarfod mis Medi'r Bwrdd***

12. Cynghorodd Cadeirydd ARAC y Bwrdd ei fod ef wedi mynychu cyfarfod JNCC ARAC ym mis Mehefin ac y gofynnwyd iddo ddarparu trosolwg craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 JNCC. Bydd Cadeirydd ARAC yn parhau i fynychu cyfarfodydd JNCC ARAC ond fel aelod annibynnol yn hytrach na fel enwebai Cyfoeth Naturiol Cymru.

13. Rhoes y Dirprwy Gadeirydd, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, ddiweddariad llafar i'r Bwrdd, gan adrodd mai cyfarfod 20 Mai oedd digwyddiad swyddogol olaf y pwyllgor. Adroddwyd bod angen diwygio'r adroddiad Datganiad Etifeddiaeth, yn sgil mewnbwn gan y Pwyllgor, ac fe'i cylchredir i'r Bwrdd llawn cyn gynted ag y bydd wedi ei orffen.

***CAM GWEITHREDU: Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru i gylchredeg yr Adroddiad Datganiad Etifeddiaeth pan fydd wedi ei gwblhau.***

14. Gan fod y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu, byddai angen cytuno ar drefniadau'r dyfodol ar gyfer ymdrin â'r rôl ffurfiol a wnâi'r Pwyllgor ar ran Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

15. Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig i'r Bwrdd fod y Pwyllgor wedi cwrdd ar 7 Mehefin i ystyried gwrthwynebiadau i ddynodi ardal SoDdGA newydd yn ne Cymru. Derbyniodd nifer o aelodau'r Bwrdd hyfforddiant ynglŷn â rôl y Pwyllgor cyn y cyfarfod ac aethant ymlaen i eistedd ar y Pwyllgor, a wnaeth gadarnhau'r dynodiad SoDdGA, yn ddiweddarach yn ystod y dydd.

16. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi mewnbwn swyddogion proffesiynol i'r cyfarfod ac awgrymwyd y dylid hyrwyddo gwaith ehangach i gefnogi dynodi a rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ehangach.

***CAM GWEITHREDU: Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, Cadeirydd ARAC, a'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i gytuno ar y ffordd orau i gynnwys y Bwrdd mewn gwaith llywodraethu ariannol ar gyfer prosiectau cyfalaf i reoli perygl llifogydd***

## Adroddiad Cyllid Diwedd Blwyddyn 2015/16

17. Cyflwynwyd yr Adroddiad Cyllid Diwedd Blwyddyn dros dro i'r Bwrdd yn ystod y cyfarfod Bwrdd diwethaf ac adroddodd y Cyfarwyddwr dros Gyllid a Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod, er bod peth mân ddiweddariadau wedi eu gwneud.

18. Trafododd y Bwrdd y lefel trosiant uchel (£23M) o flwyddyn ariannol 2015-16 i 2016-17. Amlinellwyd sut y defnyddiwyd y trosiant hwn i gyflawni cyllideb gytbwys; fodd bynnag, o ganlyniad i natur untro'r cyllid, mae wedi bod yn angenrheidiol sicrhau yr aiff hwn fwy i gyfeiriad gwaith prosiect yn hytrach na rhwymedigaethau parhaus. Cafodd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 ei chymeradwyo gan y Bwrdd ac fe'i defnyddir o ddiwedd Chwarter 1.

19. Gofynnodd y Bwrdd i ystyriaeth gael ei rhoi i sut y gellir ymgorffori gwaith adrodd ariannol ar wariant ac incwm ym maes llifogydd i'r Adroddiad Ariannol o fis Medi. Gofynnwyd yn ogystal am ragor o wybodaeth ynghylch manylion perfformiad y gyllideb, yn ddelfrydol ar lefel cyfarwyddiaeth.

20. Nododd Cadeirydd ARAC fod rheolaeth ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru yn dda iawn ac y gallai ARAC gynnig sicrwydd llawn i'r Bwrdd ynghylch y rheolaeth hon.

## Llesiant, Iechyd a Diogelwch – Adroddiad i'r Bwrdd ac Adroddiad Blynyddol 2015/16

21. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl Andrew Johnson, Pennaeth Cynllunio Pobl a Newid Busnes.

22. Nodwyd y cynnydd da ar reoli materion iechyd a diogelwch yn yr adroddiad blynyddol, gan gynnwys cyfuno tair system etifeddol i un system Cyfoeth Naturiol Cymru. Trafodwyd y gwelliannau a'r tueddiadau a adroddwyd yn MyNRW ac fe nodwyd fod lefel adrodd absenoldeb salwch bellach yn agosach ati, er y cytunwyd bod yna dan-adrodd o hyd yn ôl pob tebyg.

.

23. Trafodwyd y cynnydd ynglŷn â rheolaeth llesiant staff ac fe groesawodd y Bwrdd y fenter i hyfforddi staff ar gymorth cyntaf iechyd meddwl.

24. Ymatebodd y Pennaeth Cynllunio Pobl a Newid Busnes i amryw o gwestiynau manwl gan y Bwrdd, cyn i'r Cadeirydd ddod i gasgliad wrth groesawu'r cynnydd a adroddir arno yn yr Adroddiad Blynyddol a gofyn i'r Pennaeth Cynllunio Pobl a Newid Busnes a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, ddiolch i bawb am gynorthwyo i reoli hyn.

## Cynllun Marchnata a Chyfathrebu

25. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu, a amlinellodd y Cynllun Marchnata a Chyfathrebu drafft i'r Bwrdd.

26. Cyflwynwyd amlinelliad o'r ymgyrchoedd y mae'r tîm Cyfathrebu yn eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo amserlen y cynllun. Nodwyd pa mor uchelgeisiol oedd yr ymgyrchoedd a'r cynllun yn gyffredinol gan y Bwrdd.

27. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun ac fe gytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu yn adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Bwrdd bob chwarter.

## Papur Datganiad Sefyllfa ar Drawsleoliadau Cadwraeth

28. Cyflwynodd Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol, y Papur i'r Bwrdd gan ddisgrifio'r datganiad sefyllfa yn fras. Roedd lefel yr arbenigedd i'w gweld yn amlwg ym manylder yr adroddiad. Cafodd hynny ei nodi a'i gymeradwyo.

29. Gofynnodd y Bwrdd am gostau'r trwyddedau angenrheidiol ar gyfer trawsleoli, yn enwedig o ystyried manylder posibl yr asesiadau angenrheidiol wrth ystyried rhai ceisiadau. Cytunwyd y dylai fod mwy o eglurder ynghylch yr elfen hon o rôl Cyfoeth Naturiol Cymru wrth drwyddedu trawsleoliadau yn y Datganiad Sefyllfa terfynol.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

30. Trafodwyd trawsleoli'r afanc yng Nghymru a chadarnhawyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n ystyried nifer o geisiadau am drwydded, mewn sawl lleoliad, ar hyn o bryd.

31. Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Sefyllfa ar Drawsleoliadau Cadwraeth gyda'r mân welliannau a gynigwyd.

***CAM GWEITHREDU: Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol i gwblhau'r Datganiad Sefyllfa a threfnu iddo gael ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i gylchredeg i'r Bwrdd***

## Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol – Diweddariad Statws

32. Hysbysodd Mike Evans, Pennaeth Tystiolaeth, Gwybodaeth a Chyngor, y Bwrdd ynghylch cynnydd wrth gynhyrchu Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol cyntaf Cymru a darparodd drosolwg bras o strwythur yr adroddiad, a drafodwyd gan y Bwrdd yn flaenorol ar ffurf drafft. Cafodd y camau nesaf arfaethedig a'r amserlen heriol eu hamlinellu fel a ganlyn:

    - Cwblhau drafft terfynol pob pennod erbyn **15 Gorffennaf 2016**
    - Golygu'r ddogfen yn ei chyfanrwydd **15-22 Gorffennaf 2016**
    - Drafft terfynol y cynnwys i aelodau'r Bwrdd er cymeradwyaeth erbyn **30 Gorffennaf 2016**
    - Adolygiad allanol o'r ddogfen yn ei chyfanrwydd **30 Gorffennaf i 15 Awst 2016**
    - Fersiwn derfynol i'r Bwrdd er gwybodaeth, cyn cyhoeddi **30 Awst 2016**
    - Cyhoeddi **ddiwedd mis Medi**.

33. Trafododd y Bwrdd gynnydd a chynnwys yr adroddiad gan dynnu sylw at y cysylltiadau rhwng llesiant dynol a nifer y materion yr adroddir arnynt. Pwysigrwydd defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn ehangu gwydnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu yw sail yr adroddiad. Cafodd y cysylltiadau â'r prif heriau posibl gyda pholisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru eu cydnabod.

34. Ystyriodd y Bwrdd effeithiau posibl newid hinsawdd a sut y gallent ehangu maint cynefin rhai rhywogaethau a chrebachu maint cynefin rhai eraill. Hwylusodd hyn wrth ddangos y cymhlethdod ynghlwm â deall y wybodaeth yn yr adroddiad a'r ymatebion polisi neu reolaethol posibl.

35. Nododd y Bwrdd yr amserlen heriol a chadarnhaodd y Pennaeth Tystiolaeth, Gwybodaeth a Chyngor fod Deddf yr Amgylchedd yn datgan bod rhaid i Gyfoeth

Naturiol Cymru gyhoeddi fersiwn gyntaf yr adroddiad o fewn pedwar mis i'r Ddeddf ddod yn weithredol. Crynhodd y Cadeirydd gan gydnabod y gwaith aruthrol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i gynhyrchu'r adroddiad. Gwnaeth y Cadeirydd ailddatgan y bydd yr adroddiad yn cael ei ddatblygu'n barhaus ac y caiff ei ddiweddaru dros amser er mwyn llywio cyflawniadau a blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, a Chymru yn ei chyfanrwydd.

## Materion Llygredd Amaethyddol

36. Croesawodd y Cadeirydd Bob Vaughan, Rheolwr Ffermio a Choedwigaeth Cynaliadwy a Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a Phil Morgan, Uwch Swyddog yr Amgylchedd, i'r cyfarfod, a roesant ddiweddariad ar y cyd i'r Bwrdd ar effaith llygredd amgylcheddol mewn perthynas â'r heriau o ran cwrdd â thargedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a materion cysylltiedig, megis dirywiad bioamrywiaeth.

37. Roedd y Bwrdd yn gytûn bod y cyflwyniad yn amlygu rhai materion brawychus ac fe drafodwyd effaith llygredd a achosir gan dywydd gwael a dwysáu cynyddol y diwydiant llaeth yn ogystal.  Cefnogodd y Bwrdd y cynigion ar gyfer ystod eang o ymyraethau, ochr yn ochr â rheoleiddio, i hwyluso gyrru gwelliannau yn eu blaen.

38. Cytunwyd fod angen symud o ddull gweithio adweithiol i gydweithio gyda'r sector amaethyddol i yrru gwelliannau mewn rheoli adnoddau naturiol yn eu blaen. Anogodd y Bwrdd ddatrysiadau arloesol ac integredig hefyd, megis cynhyrchu egni adnewyddadwy drwy dreulwyr anerobig, i leihau'r angen am daenu slyri ar y tir.

39. Crynhodd y Cadeirydd wrth atgoffa'r Bwrdd fod yr un cyflwyniad wedi ei roi i'r Gweinidog blaenorol ac y bydd yn bwysig i Gyfoeth Naturiol Cymru barhau i ganolbwyntio ar gefnogi newid trawsnewidiol mewn rheolaeth slyri, gan y gallai'r manteision fod yn sylweddol.

## Adroddiad y Cadeirydd

40. Roedd y Cadeirydd wedi darparu crynodeb ysgrifenedig a oedd yn amlinellu'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd. Yn ogystal, mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Ysgrifennydd y Cabinet a chyda Llywodraeth Cymru.

## Adroddiad y Prif Weithredwr

41. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at sawl eitem o'i adroddiad ysgrifenedig, gan gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda phrifysgolion Cymru a pherthnasedd hynny i ddatblygu sail tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

42. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu mai elusennau cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru yw Maint Cymru, Water Aid a Tree Aid. Dyma barhau â threfniadau rhagflaenwyr i'r elusennau hyn gael eu hyrwyddo i staff ar sail cyfrannu sy’n gyfan gwbl wirfoddol. Nid oes yna unrhyw nawdd uniongyrchol i'r elusennau cysylltiedig hyn, nag unrhyw elusen arall, gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## Materion Lleol – briffio

43. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth, nifer o faterion lleol i'r Bwrdd ac aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Er bod pob un o ddyfroedd ymdrochi Ceredigion yn cwrdd â safonau'r Undeb Ewropeaidd, mae yna ambell fan pryder â phroblemau parhaus mewn cyfnodau o law trwm.

44. Trafodwyd y gwaith ymgysylltu cymunedol parhaus ynghylch trwydded ar gyfer pysgodfa pysgod cregyn yng Ngheinewydd. Yn yr un modd, trafodwyd y cynnig, a fydd angen trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer cerflun coeden efydd ar draeth y Borth, er mwyn hyrwyddo'r bonion coes o oes yr iâ sydd wedi eu ffosileiddio ac y'i gwelir yn amlwg pan fo'r llanw'n isel.

## Unrhyw Fater Arall gan y Bwrdd a chan fynychwyr

45. Nodwyd fod cyfarfod nesaf y Bwrdd i'w gynnal yn gyhoeddus yng Nghaerdydd ar 29 Medi.

46. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i derfyn wrth ddiolch i'r Tîm Gweithredol, yr Ysgrifenyddiaeth ac eraill ynghlwm â'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.

47. Ar ôl cau cyfarfod y Bwrdd yn ffurfiol, gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Cadarnhaodd sawl mynychydd pa mor ddefnyddiol fu mynychu'r cyfarfod a gofynnwyd sawl cwestiwn penodol. Mae'r cwestiynau hyn, ynghyd â'r atebion, i'w gweld yn Atodiad 1.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Atodiad 1

# Cwestiynau Cyhoeddus

### 1. Kerry Lewis, Prifysgol Aberystwyth –

Tynnodd Kerry sylw at y ffaith y bydd cysylltu ac integreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn hanfodol. Gofynnwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal a fydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn cael ei gyhoeddi ar wahân?

**Ymateb:** Cadarnhaodd y Pennaeth Tystiolaeth y bydd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn ddogfen annibynnol a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

### 2. Cynghorydd Lleol (ni wyddys ei enw)

Mynegodd y cynghorydd ddiddordeb yn y cyflwyniad ar lygredd amaethyddol a gofynnodd a oedd y map o ardaloedd â phroblemau posibl yn dynodi problemau yng Nghwm Ystwyth.

**Ymateb:** Cytunodd y Cadeirydd yr aed â'r cwestiwn hwn yn ôl ac y rhoddir ymateb ysgrifenedig maes o law.

**Ymateb Ysgrifenedig:** Rhwng 2010 a 2016 fe adroddwyd 13 digwyddiad yn ymwneud â llygredd slyri a silwair i Gyfoeth Naturiol Cymru yn nalgylch afon Ystwyth. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn ddigwyddiadau bychan yn ymwneud â ffermydd cig eidion a ffermydd llaeth yn y dyffryn. Mae'r tîm Cyfoeth Naturiol Cymru lleol wedi gweithio gyda'r ffermydd dan sylw i roi gwelliannau yn eu lle ac fe gafodd camau gorfodi priodol eu cymryd. Yn dilyn y gwaith hwn, nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi eu hadrodd ers 2012. Ystyrir nad yw llygredd amaethyddol yn effeithio ar statws Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr afon Ystwyth ar hyn o bryd.

### 3. Helen Johnston – Salmon and Trout Conservation

Cadarnhaodd Helen ei bod wedi cyflwyno casgliad manwl o gwestiynau ysgrifenedig, ond rhoes grynodeb gan amlygu'r gwaith gwella cynefin a wneir gan ei sefydliad hi ei hun a chroesawu ymagwedd ragweithiol Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â llygredd amgylcheddol. Roedd yn ddiolchgar i Gyfoeth Naturiol Cymru am y gwaith da hyd yma. Fodd bynnag, dywedodd Helen fod papur heddiw yn dangos maint y broblem hon, felly gofynnodd a oedd y Bwrdd yn cytuno bod yr ymagwedd bresennol yn hollol effeithiol a pha gynlluniau sydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gynyddu adnoddau staff ar gyfer y gwaith hwn?

**Ymateb:** Dywedodd Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth, fod yna gynnydd mawr wedi bod wrth adrodd digwyddiadau, sydd wedi ei gwneud yn anodd symud yr holl adnoddau o waith adweithiol i gamau mwy rhagweithiol. Adnabyddodd Madeleine Havard y benbleth o ganfod yr adnoddau digonol i symud o ddull gweithio adweithiol i ddull gweithio rhagweithiol, o ganlyniad i'r oedi posibl wrth ymateb.

Yn ogystal, mae ymatebion ysgrifenedig llawn (ar gael ar gais) wedi eu darparu mewn perthynas â'r cwestiynau ysgrifenedig canlynol a gyflwynwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru.

**Cwestiynau a gyflwynwyd drwy e-bost i gyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 7 Gorffennaf 2016 gan Salmon & Trout Conservation Cymru ac Afonydd Cymru:**

1) A ydych yn cytuno nad yw rheoleiddio yn effeithiol ar hyn o bryd wrth fynd i'r afael â phroblem eang llygredd amgylcheddol a beth yw eich barn ar y dull a gynigiwn ni ar gyfer canfod datrysiad?
2) Gan fod y papur a gyflwynwyd i gyfarfod y Bwrdd heddiw (Cyfeirnod y Papur: NRW B B 46.16) yn dangos yn glir bod sefyllfa llygredd amgylcheddol allan o reolaeth, sut y gellir cyfiawnhau lleihad yn nifer y staff sy'n ymwneud ag arolygiadau fferm, a hyd yn oed rhoi'r gorau i ymweliadau fferm yn llwyr mewn rhai ardaloedd, gan ymateb yn hytrach i ddigwyddiadau llygredd yr adroddir yn eu cylch yn unig?
3) Mae S&TC Cymru yn pryderu o glywed tystiolaeth anecdotaidd ddiweddar ac adroddiadau'r cyfryngau ynghylch pwysau potsio ar frithyll y môr – beth yw eich barn ar y mater hwn a beth yw cynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cyflawni lefelau gorfodi uwch i fynd i'r afael â photsio?
4) Morlynnoedd – beth yw statws cyfredol y ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer morlyn arfaethedig Bae Abertawe?